LC234

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 5) 2001

### Y cefndir

Mae'r rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli rheoliadau rhif 4 sy'n dwyn yr un teitl. Fel yn achos rheoliadau rhif 4, maent yn gweithredu cyfyngiadau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid penodol, a hynny yn unol â chyfres o Benderfyniadau gan y Comisiwn.

Yr oedd rheoliadau rhif 4 yn gymwys tan 19 Ebrill. Cafodd y rheoliadau presennol eu gwneud o dan y weithdrefn weithredol ar 19 Ebrill ac maent yn gymwys tan 18 Mai.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

Fel yn achos offerynnau statudol blaenorol clwy'r traed a'r genau, yn uniaith Saesneg y mae'r rheoliadau hyn wedi'u gwneud. Deellir bod hynny wedi'i wneud oherwydd bod angen gwneud y rheoliadau o fewn amser byr.

Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cynulliad priodol ynghylch y mater hwn o'r blaen ac fe fydd yr ateb i'r llythyr hwnnw yr un mor berthnasol i'r achos presennol. Gyda'r

rheoliadau hyn, sylwer yn arbennig fod y testun yr un fath i raddau helaeth â'r rheoliadau cynharach yn y gyfres bob tro.

**Rheoliad 2**

Fel yn achos rheoliadau rhif 4, nodir bod y diffiniad o "National Assembly" a gynhwyswyd yn y rheoliadau cynharaf wedi'i hepgor erbyn hyn.

**Rheoliad 22**

Gan fod y Rheoliadau'n rhoi nifer o swyddogaethau i'r Cynulliad, fe ellid gofyn pam y mae'r ddyletswydd i orfodi wedi'i rhoi i'r Gweinidog Amaethyddiaeth a'r awdurdodau lleol ond nid i'r Cynulliad hefyd. Mae'r cwestiwn wedi'i godi gyda'r Gweinidog Cynulliad priodol yng nghyd-destun y rheoliadau gwreiddiol yn y gyfres hon ac felly fe fydd yr ateb yr un mor berthnasol ar gyfer y rheoliadau presennol.

**Y Nodyn Esboniadol**

Fel yn achos yr holl reoliadau blaenorol yn y gyfres hon, nodir y byddai o gymorth pe bai'r Nodyn yn rhoi'r dyddiad y bydd y rheoliadau yn peidio â bod yn gymwys.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

8 Mai 2001